**Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ("y Cod") – Datganiad o'r Rhesymau dros yr Addasiadau**

| Lleoliad yr Addasiad yn y Cod | Addasiad | Rheswm dros yr Addasiad |
|---|---|---|
| Y ddogfen gyfan | Mae teitl y Cod wedi'i ddiwygio o "Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr (Etholiadau'r Senedd) 2025" i "Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025" | Sicrhau cysondeb drwy'r Cod. |
| Paragraff 1.2 | Mae'r geiriad "o dan y paragraff hwnnw.)" wedi'i ddileu. | Nid oes angen y geiriad. |
| Paragraff 1.3 – Diffiniad o "asiant etholiadol" | Mae'r cyfeiriad at erthygl 37 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("Gorchymyn 2025") wedi'i ddiwygio i erthygl 39 o Orchymyn 2025. | Cyfeiriad anghywir. |
| Paragraff 1.3 – Diffiniad o "cyfnod a reoleiddir" | Mae'r geiriad "tua phedair wythnos" wedi'i ddiwygio i "tua phedwar mis". | Cyfnod amser anghywir. |
| Paragraff 1.12 | Mae'r paragraff wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r geiriad wedi'i ddiweddaru yn erthygl 65 o Orchymyn 2025. | Roedd y geiriad gwreiddiol yn adlewyrchu'r geiriad yn erthygl 63 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007"). |

| | | |
|---|---|---|
| Paragraff 1.13 | Mae'r cyfeiriad at Orchymyn 2007 wedi'i ddiwygio i Orchymyn 2025. | Cyfeiriad anghywir. |
| Paragraff 1.24 | Mae'r cyfeiriad at erthygl 55(3) o Orchymyn 2025 wedi'i ddiwygio i erthygl 55(6) o Orchymyn 2025.<br><br>Mae cyfeiriad at erthygl 56(4) o Orchymyn 2025 hefyd wedi'i ychwanegu at y paragraff hwn. | Cyfeiriad anghywir.<br><br>Sicrhau bod gwybodaeth lawn yn cael ei darparu a bod dull gweithredu cyson yn cael ei ddefnyddio. |
| Paragraff 5.6 | Mae bwlch wedi'i ychwanegu rhwng y geiriau "party" a "the" yn y Saesneg. | Cywiriad fformatio. |
| Paragraff 9.10 | Mae'r geiriau "yn ymgyrchu" wedi'u hychwanegu rhwng "chyflogeion" ac "ar". | Gair ar goll. |